

clwyd theatr cymru

Theatr I Bobl Ifanc



Y Gyfrinach

Pecyn Athrawon

Y CARTREF

FICTORIAIDD

Morwynion

(yn nhrefn pwysigrwydd)

YR HOWSCIPER

Goruchwylio holl waith yr aelwyd a sicrhau fod pob adran yn rhedeg yn rhwydd. Bod yn gyfrifol am gyflogi a diswyddo'r staff benywaidd i gyd ar wahân i forwyn gwraig y tŷ a'r nyrs. Roedd y swp mawr o oriadau yr oedd hi'n eu cario yn symbol o'u hawdurdod.

Y GOGYDDES

Goruchwylio paratodau bwyd y morynion cegin. Rhoi'r cyffyrddiadau olaf i ddysglau crand. Mewn tai llai, y gogyddes fyddai'n gwneud y gwaith coginio ei hun.

MORWYN GWRAIG Y Tŷ

Bod yn gyfrifol am holl ofynion gwraig y tŷ, ei gwisgo a'i dadwisgo. Cario dwr poeth i ystafell wely gwraig y tŷ. Trwsio hetiau a dillad cain gwraig y tŷ.

Y FORWYN PLANT

Bod yn gyfrifol am holl anghenion y plant. Goruchwylio dillad a phrydau y drefn feunyddiol. Mynd â'r plant allan am dro yn y parc bob dydd.

MORWYN Y Tŷ

Goruchwylio gwaith yr is-forynion tŷ. Gweini bwyd wrth y bwrdd. Cynnau tân yn y prif ystafelloedd.

Y FORWYN BARLWR

Gosod y byrddau ar gyfer prydau a gweini wrth y bwrdd. Tynnu llwch a chwyro'r addurniadau a'r dodrefn. Glanhau'r carpedi a'r matiau.

MORWYN Y GOLCHDY

Nodi yn y llyfr golchi yr eitemau â anfonir i lawr i'r golchdy. Golchi, sychu, manglo, startsio a smwddio'r dillad. Cadw'r ystafelloedd golchi yn lân.

IS-FORWYN Y Tŷ

Clirio'r lludw o'r tanau a sicrhau fod yna ddigonedd o lô yn y bwcedi. Cwyro'r gratiau. Glanhau ystafelloedd y gweision a'r morynion. Glanhau'r grisiau blaen a'r cyntedd.

IS-FORWYN PLANT

Cadw'r feithrinfa yn lân a thaclus.

Glanhau ar ôl y plant.

Nôl prydau'r plant o'r gegin a mynd â'r llestri yn ôl wedyn.

MORWYN CEGIN GEFN

Glanhau lle tân y gegin, y gegin a'r gegin gefn cyn i'r gogyddes ddod i lawr yn y bore.

Golchi llestri ar ôl prydau.

Helpu i baratoi prydau ysgafn.

Glanhau offer y gegin a'r gegin gefn.

MORWYN BOB SWYDD

Blacledio'r llefydd tân, sgrwbio'r lloriau a byrddau'r gegin.

Nôl y dwr budr o'r ystafelloedd a gwagio'r trochion.

Sgrwbio'r cerrig llorio a'r grisiau.

Glanhau'r cistiau glô copr.

Gweision

(yn nhrefn pwysigrwydd)

STIWARD Y Tŷ

Sicrhau fod popeth yn yr ystafell fwyta yn rhedeg yn rhwydd.
Disgyblu'r staff ac archwilio'r cyflenwadau, goruchwylio'r cyfrifon.
Goruchwylio symudiadau'r staff o un tŷ i'r llall.
Rheoli gwaith pacio a symud eitemau gwerthfawr o un tŷ i'r llall.

BWTLER

Bod yn gyfrifol am lestri'r aelwyd a dosbarthu'r darnau â fyddai eu hangen y diwrnod hwnnw bob bore.
Pan fyddai cinio'n barod, mynd i'r parlwr a datgan fod popeth wedi'i baratoi.
Sefyll y tu ôl i gadair y meistyr yn ystod y weddi, yn barod i dynnu'r cloriau oddi ar y dysglau.
Gweini'r gwîn ac edrych ar ôl y seler wîn.

VALET

Cario dwr i fyny i wr y tŷ.
Brwsio eu dillad a gosod y dillad y byddent yn eu gwisgo'r diwrnod hwnnw allan.
Sicrhau fod y papurau newydd yn cael eu smwddio bob bore.

PRIF ARDDWR

Cynhyrchu llysiau a ffrwythau ar gyfer y bwrdd.
Gofalu am y tai gwydr a hel nwyddau i'r tŷ.
Goruchwylio gwaith y garddwyr cyffredin.

GWAS

Gosod y bwrdd brecwast ar gyfer y teulu a chario bwyd i mewn, gan glirio'r bwrdd wedyn.
Cadw'r cyntedd blaen yn drefnus; rhoi cotiau, hetiau ac ymbarelau yn eu llefydd.
Ateb cloch y parlwr.

COETSMON

Gyrru'r goets yn llyfn a ddim yn rhy gyflym.
Golchi a glanhau'r cerbydau a'r harneisiau.

GWAS LIFRAI

Cynorthwyo'r bwtler i weini wrth y byrddau.
Glanhau'r esgidiau a'r llestri.
Gofalu am y lamp a'r canwyllbrennau.
Canu'r gloch ginio hanner awr cyn i'r cinio gael ei weini ac eto yn union cyn cinio.

PORTHOR

Glanhau'r cyllyll a'r ffyrc, torri coed tân, cario'r glô i mewn.
Ysgubo'r buarth bob dydd, glanhau'r ffenestri a nwyddau pres yr aelwyd.

GWAS STABL

Bwydo ac ymarfer y ceffylau.
Glanhau'r stablau a'r buarth.

Bywyd Pob Dydd mewn Cartref Fictoraidd

Y gwr yw pennaeth y tŷ ac mae ei air ef yn ddeddf.

Y wraig sy'n goruchwyllo'r gweision, yn cynllunio prydau, yn ymweld â gwragedd bonheddig, yn siopa am ddillad, yn mynd i weld yr wniadwraig ac yn gwnio. Hi hefyd sy'n gofalu am gyfrifon yr aelwyd.

Byddai gan unrhyw dŷ mawr gwledig o leiaf wyth o weision, ac weithiau byddai gan y plastai ddeugain o staff dan do. Byddai clercod hyd yn oed yn cyflogi un forwyn gwneud-pob-dim.

Roedd gwaith yr aelwyd wedi ei drefnu yn ofalus ac roedd pob adran o dan reolaeth ei prif was.

Goruchwylwyd y dynion yn gyffredinol gan stiward y tŷ neu'r bwtler, a goruchwylwyd y merched gan yr howsciper.

Dangosodd cyfrifiad 1881 fod un allan o naw o bob merch yn forwyn dan do. Roedd un allan o bob tair merch ifanc rhwng 15 ac 20 mlwydd oed yn forynion teuluol.

Defnyddiwyd grisiau ar wahân gan staff, ac roedd gan rai tai mawr risiau ar wahân hyd yn oed ar gyfer gweision gwrywaidd a benywaidd. Ceir hanesion am weision yn gorfod ymwasgu at y wal pe gwelent aelodau o'r teulu neu westeion yn dod tuag atynt.

Mewn tai â redwyd yn dda ni welwyd morynion gyda'u hysgub na'u cadach tynnu llwch. Heblaw am yr ystafelloedd gwely byddai'n rhaid i'r gwaith tŷ gael ei wneud cyn i unrhyw aelod o'r teulu ddod i lawr y grisiau.

Cysgai gweision benywaidd a gwrywaidd mewn rhannau gwahanol o'r ty. Roedd y buarthau golchi yn aml yn amgaeedig er mwyn cadw gweision y stabl ar wahân i forynion y tŷ golchi. Cododd un cyflogwr dwnnel i'r morynion ei ddefnyddio er mwyn cyrraedd y man sychu heb gerdded heibio'r stablau.

Byddai gan y gogyddes y teitl "Mrs", hyd yn oed petai hi'n ddibriod.

Gelwid morwyn y wraig yn "Miss".

Cogyddes "broffesedig" yw un sy'n gallu gwneud ciniawau cymhleth a phwdinau "crand" yn ogystal â phrydau syml. Byddai'n ennill mwy na chogyddes "blaen" gyda sgiliau syml.

Ni fyddai'r rhan fwyaf o weision yn cael unrhyw amser yn rhydd o'u gwaith ac eithrio i fynd i'r eglwys, hyd at yr 1890au pan allai staff gael un diwrnod yn rhydd bob wythnos.

Mynnai rhai cyflogwyr fod eu papurau newydd yn cael eu smwddio er mwyn gwneud y tudalennau yn berffaith llyfn.

Byddai'n rhaid i weision wisgo menyg yn gyhoeddus er mwyn cuddio eu dwylo oedd yn arw gan waith caled.

Cyn brechwast byddai'r teulu a'r gweision yn cyd-weddiö.

Roedd brechwast yn bryd mawr. Cig oer, pastai helgig, golwythi cig dafad, stêcs ffolen, arennau, kedgerie, cig moch a wyau. Tôst a marmalêd. Myffins Seisnig a the, coffi a choco i yfed. Byddai hyn yn cael ei weini am 8.30 y bore.

Pryd ysgafn oedd cinio canol dydd - pasteiod, cig wedi'i stwnshio a thartenni ffrwythau.

Byddai'r gweision yn bwyta wedyn ac yn cael prif bryd y diwrnod, pryd yr oeddynt yn ei alw'n ginio. Seigiau syml, digonol oeddynt - cig eidion wedi'i ferwi, cig dafad, stiwcwningen, llyisiau wedi'u berwi a phentwr o fara.

Ni chaniatiawyd i'r gweision îs siarad oni bai fod rhywun yn siarad â nhw yn gyntaf.

I dê prynhawn fe fyddai yna dafelli tenau o fara gwyn a menyn a chacennau tê wedi'u crasu.

Nid oedd yna fyth llai na phedwar cwrs i ginio. Byddai hwn yn cael ei weini gan weision lifrai. Y bwtler fyddai'n gyfrifol am y gwin.

Gallai cinio llawn ar gyfer deunaw o bobl gynhyrchu cymaint â 500 o eitemau unigol i'w golchi wedyn.

Mewn ciniawau arbennig fe fyddai yna un gwas ar gyfer pob gwestai.

Byddai'r gweision uwch yn bwyta swper gyda'i gilydd yn ystafell yr howsciper neu Stiward y Tŷ - byddai morwyn y wraig, y valet, y brif nyrs, y gogyddes, y gwas lifrai a'r coetsmon yn bresennol.

Cistiai mawr pren â ddefnyddiwyd fel oergelloedd neu "goffrau rhew" cynnar, wedi eu leinio â sinc, gyda lwmpyn mawr o rew tu mewn i gadw'r bwyd yn oer a ffresh. Dim ond unwaith y dydd y gellid eu hagor rhag ofn i'r rhew doddi. Fe fyddai yna dap ar y blaen i adael dwr allan.

Dulliau eraill o gadw bwyd oedd piclo, sychu neu halltu. Roedd llyisiau yn cael eu piclo mewn finegr. Gwnaed ffrwythau yn jam neu eu sychu. Rhwbiwyd darnau o gig yn drwyadl gyda halen a'u cadw mewn cwpwrdd cig, sef rhwyll bren gyda drws ar ei blaen.

Roedd ystafelloedd y gweision yn ddi-liw gydag waliau llwyd, lloriau moel, matresi lympiog a hen fasn a phiser. Rhoddwyd dodrefn oedd yn rhy hên neu flêr ar gyfer y tŷ yn ystafelloedd y gweision.

Byddai plant y tŷ yn treulio eu hamser i gyd gyda'u nyrs, gan dreulio dim ond awr y dydd gyda'u rhieni yn y parlwr a'r amser gyda'i gilydd ar gyfer y gweddiau boreol. Byddent yn bwyta eu prydau i gyd yn y feithrinfa. Byddai'r nyrs yn cysgu yn y feithrinfa gyda'r plant.

Defnyddiwyd y ddoli (neu'r golchbren) i bwnio dillad wrth iddynt socian yn y twba poeth. Roedd y bwrdd golchi wedi'i wneud o haearn rhychog neu sinc.

Cynheswyd haearnau smwddio wrth y tân a byddai'r dolenni yn boeth iawn, gan sgaldio'r morwynion golchi yn aml.

Mewn tai mawr byddai'r rhan fwyaf o'r bwyd yn cael ei dyfu neu ei wneud ar y tiroedd oedd yn perthyn i'r tŷ. Golygai hyn mai dim ond ychydig o eitemau oedd angen eu prynu gan fasnachwyr lleol.

Penillion am Forwynion

THE SONG OF THE SHIRT *Gan Thomas Hood*

*With fingers weary and worn,
With eyelids heavy and red
A woman sat, in unwomanly rage,
Plying her needle and thread –
Stitch ! Stitch ! Stitch!
In poverty, hunger and dirt,
And stiff with dolorous pitch
She sang the "Song of the Shirt"*

**

*Work - work - work!
My labour never flags;
And what are its wages ? A bed of straw,
A crust of bread - and rags.*

**

Unwomanly
Plying
Dolorous pitch
Flags

not showing the appearance of a woman
using or working with.
miserable tone.
becomes slower

IN SERVICE
dienw

*We live behind the green baize door,
"Below stairs" on the basement floor –
We servant girls, who to and fro
About our household duties go.*

*In print or black we always dress,
Both cap and apron wear no less;
Cuffs, collars, streamers too, maybe,
Complete the housemaid's livery.*

*Thus duly clad our day is spent
All on domestic service bent
And seldom come such times as we
Are from our various tasks set free –*

*Alas the night too quickly flies,
And all too soon it's time to rise-
A servant's work must be resumed.
And we as servant girls costumed.*

*By halfpast six, if not before,
We've started on our work once more;
Starched dress with apron overspread,
Cap, hair concealing, over head.*

*And like our dress, our manner too,
Must be submissive through and through~
Our calling is to serve and wait,
And keep within our proper state.*

*We must not ever put on airs,
Or idle over love affairs;
"No followers " is the rule applied,
And if we flout it - woe betide.*

*To church on Sundays, meek and low,
All cloaked and bonneted we go;
Nor any ornament intrude
On Sabbath garb of servitude.*

*But don't think there's no fun at all
In kitchen or in servants' hall.
If few our chances to be gay,
Cheerful, at least, we try to stay.*

*In general we accept our place
with modest and respectful grace~
Our lot, we know, is service -yet
Be patient if we should forget.*

*Sometimes that lot seems hard to bear;
The work we do, the clothes we wear.
If now and then our temper's frayed,
Don't chide too much your servant maid.*

<i>clad</i>	dressed
<i>livery</i>	uniform
<i>woe betide</i>	watch out
<i>garb</i>	clothes
<i>chide</i>	to tell off

MORYNION A GWEISION ERDDIG

ALBERT GILLAM

Prif Arddwr

*Ne'er did our borders look more gay
Than they have done beneath his sway,
And highly we appreciate
The one to whom this doth relate.*

*While praising his own useful life,
No less deserving is his wife,
She is of healing-arts possest
For such as are by ills distrest.
At Orchard-Lodge these two reside
Close to the Garden's southern side,
Where time is profitably spent
On Poultry-rearing craft intent*

**

<i>Sway</i>	care
<i>Possest</i>	possessed
<i>Distrest</i>	distressed

JOHN JONES

Saer

*For him we have a great regard
As Veteran of our Timber yard:
For two~and-thirty years have sped
Since first he entered at our shed,
Yet never failed his course to pace
'Twixt Marchwiel Village and this place,
Save when ill health has been his share,
Which, heavens be thank 'd, has been but rare.*

**

<i>'twixt</i>	between
---------------	---------

LUCY HITCHMAN

Nyrs

*Her city, which is Worcester named,
Is for its old cathedral fame~
And there a monument is seen
To Grantham Yorke, who once was Dean.
Of "Lea & Perrins" 'tis the town,
Whose sauce is held in high renown,
And over Christendom we deem
Its porcelain held in high esteem.*

**

renown

regard

MARY WEBSTER

Howsciper

*Upon the portly form we look
Of one who was our former Cook,
No better keeper of our store
Did ever enter at our door.
She knew, and pandered to our taste,
Allowed no want, and yet no waste
And for some thirty years or more
The cares of Office here she bore*

**

Portly

well-built

SYNIADAU

AR GYFER

BYRFYFYR

DARN BYRFYFYR UN

Mae'n rhaid i'r darn byrfyfyr fod o fewn dau neu dri munud o hyd, gan ddefnyddio deialog. Mae'n rhaid cadw cynnwys y ddrama ac mae'n rhaid i'r broblem gael ei datrys, ar ôl hynny gallwch ychwanegu at y stori.

CYNNWYS

Pob dydd mae'n rhaid i'r is-forwyn plant fynd â'r plant ar reid ceffyl gyda'r gwas stabl. Dyma'r unig adeg mae hi yn cael bod yng nghwmni'r gwas stabl heb oedolyn. Ar un adeg, dywedir yr is-forwyn wrth y gwas stabl ei bod wedi gweld y brif nyrs yn taro'r plant. Beth mae'r ddau ohonnynt yn ei wneud am y gyfrinach? Os dywedant wrth feistres neu feistr y tŷ, â fyddent yn eu coelio? Â ydynt yn dweud wrth yr howsciper?

CANLLAWIAU AR GYFER CREU EICH DRAMA

Yn gyntaf oll penderfynnwch faint o gymeriadau sydd arnoch eu hangen yn eich drama.

Fe allwch gael yr is-forwyn plant; gwas y stabl; plant; meistres y tŷ; meistr y tŷ. Hoffwn pe byddech yn defnyddio cadeiriau fel ceffylau fel bod gan bawb ran i chwarae.

Nesaf penderfynnwch sut mae'r ddrama yn cychwyn - ai gyda'r brif nyrs yn taro'r plant? Ydy'r is-forwyn yn siarad â'r plant ac yn gofyn os ydynt yn iawn neu'n edrych am gleisiau?

Yna penderfynnwch sut mae'r ddrama yn dod i ben a sut mae'r broblem yn cael ei datrys.

Cofiwch am lefelau statws y gweision - mae'r gwas stabl a'r is-forwyn plant yn isel; ond mae gwaith y brif nyrs yn waith pwysig iawn.

Tra'n siarad, gwnewch yn siwr nad oes neb arall yn eich grwp yn siarad yr un pryd. Cofiwch fod angen i'r gynulleidfa weld a chlywed popeth!!

DARN BYRFYFYR DAU

Mae'n rhaid i'r darn byrfyfyr fod o fewn dau neu dri munud o hyd, gan ddefnyddio deialog. Mae'n rhaid cadw cynnwys y ddrama ac mae'n rhaid i'r broblem gael ei datrys, ar ôl hynny gallwch ychwanegu at y stori.

CYNNWYS

Un noson roedd morwyn y tŷ yn pryfocio'r gwas lifrai trwy ddeud pa mor gryf oedd hi. Honnai y medrai ei gario a chyn iddo fedru ei hatal fe'i cariodd ar ei chefn o gwmpas y gegin o flaen y gweision a'r morynion eraill. Fe gododd hyn wrychyn y gwas lifrai a chodi cymaint o gywilydd arno, pan ddigwyddodd glywed sgwrs rhwng morwyn y tŷ a morwyn arall ynglyn â pherthynas gyfrinachol y mae'n ei chael gyda dyn o aelwyd arall, fe ddywedodd wrth y bwtler (neu'r howsciper). Beth sy'n digwydd i'r forwyn? a'i ffrind? ac i'r gwas? Â yw'r bwtler (howsciper) yn credu'r gwas?

CANLLAWIAU AR GYFER CREU EICH DRAMA

Yn gyntaf oll penderfynwch faint o gymeriadau sydd arnoch eu hangen yn eich drama. Fe allwch gael y forwyn; ei ffrind; y gwas; y bwtler (howsciper); morwyn cegin gefn; cogyddes.

Nesaf penderfynwch sut mae'r ddrama yn cychwyn – ai gyda morwyn y tŷ yn ysgrifennu at ei ffrind? Ni chaniatawyd perthynas fel hyn oni bai fod meist'r y tŷ wedi rhoi ei ganiatâd.

Yna penderfynwch sut mae'r ddrama yn dod i ben a sut mae'r broblem yn cael ei datrys.

Cofiwch am lefelau statws y gweision ac nad oedd y gwas lifrai yn hoffi cael ei fychanu gan forwyn y tŷ.

Tra'n siarad, gwnewch yn siŵr nad oes neb arall yn eich grŵp yn siarad yr un pryd. Cofiwch fod angen i'r gynulleidfa weld a chlywed popeth!!

DARN BYRFYFYR TRI

Mae'n rhaid i'r darn byrfyfyr fod o fewn dau neu dri munud o hyd, gan ddefnyddio deialog. Mae'n rhaid cadw cynnwys y ddrama ac mae'n rhaid i'r broblem gael ei datrys, ar ôl hynny gallwch ychwanegu at y stori.

CYNNWYS

Cafodd gwas neu forwyn ei g/chyfweld gan yr howsciper neu stiward y tŷ a phan gafodd ef/hi y swydd cafodd ei g/chyflwyno i'r gweision eraill. Roedd un o'r gweision hyn yn adnabod y gwas/morwyn newydd o swydd arall ac yn gwybod cyfrinach ofnadwy amdano/amdani. Â fyddent yn dweud wrth yr howsciper neu stiward y tŷ neu â fyddent yn dweud wrth ffrind yn gyntaf a gofyn am gyngor? Beth fyddai'n digwydd iddynt? Pe na fyddent yn dweud â'r gwas neu forwyn yn dechrau gweithio beth fyddai'n digwydd? Beth oedd y gyfrinach?

CANLLAWIAU AR GYFER CREU EICH DRAMA

Yn gyntaf penderfynwch faint o gymeriadau sydd eu hangen yn eich drama. Fe allwch gael y gwas/morwyn newydd; yr howsciper neu stiward y tŷ a'r gweision eraill.

Nesaf penderfynwch sut mae'r ddrama yn cychwyn – ai gyda'r gweision yn y tŷ cyntaf pan fo'r gyfrinach yn dechrau a hwythau yn cael eu diswyddo? Neu ai gyda'r cyfweliad?

Yna penderfynwch sut mae'r ddrama yn dod i ben a sut mae'r broblem yn cael ei datrys.

Cofiwch am lefelau statws y gweision a sicrhewch fod yr actio yn cael ei gadw o fewn y lefelau hynny.

Tra'n siarad gwnewch yn siŵr nad oes neb arall yn eich grŵp yn siarad yr un pryd. Cofiwch fod angen i'r gynulleidfa weld a chlywed popeth!

DARN BYRFYFYR PEDWAR

Mae'n rhaid i'r darn byrfyfyr fod o fewn dau neu dri munud o hyd, gan ddefnyddio deialog. Mae'n rhaid cadw cynnwys y ddrama ac mae'n rhaid i'r broblem gael ei datrys, ar ôl hynny gallwch ychwanegu at y stori.

CYNNWYS

Mae gwas neu forwyn gyda statws uchel e.e. valet; gwas lifrari; prif nyrs; cogyddes yn cael eu hunain mewn sefyllfa gyda rhywun o statws isel iawn e.e. gwas stabl; porthor; morwyn cegin gefn; ac is-forwyn y tŷ. Beth yw'r sefyllfa? Beth sydd yn digwydd nesa - sut maent yn ymdopi gyda newidiad yn eu sefyllfa? Sut mae'r gweision eraill yn ymateb - efallai eu bod yn meddwl bod y sefyllfa yn ddoniol.

CANLLAWIAU AR GYFER CREU EICH DRAMA

Yn gyntaf penderfynnwch faint o gymeriadau sydd eu hangen yn eich drama. Byddech angen howsciper neu stiward y tŷ, ac felly hefyd dylid cael gweision îs i ymateb â'r newid.

Nesaf penderfynnwch sut mae'r ddrama yn cychwyn - ai gyda'r gweision yn y tŷ cyntaf pan fo'r gyfrinach yn dechrau a hwythau yn cael eu diswyddo? Neu ai gyda'r cyfweliad?

Yna penderfynnwch sut mae'r ddrama yn dod i ben a sut mae'r broblem yn cael ei datrys.

Cofiwch am lefelau statws y gweision a sicrhewch fod yr actio yn cael ei gadw o fewn y lefelau hynny.

Tra'n siarad, gwnewch yn siwr nad oes neb arall yn eich grwp yn siarad yr un pryd. Cofiwch fod angen i'r gynulleidfa weld a chlywed popeth!!